# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## SOC(4)-01-11 (p3)

## Cofrestr o Fuddiannau Ariannol yr Aelodau

1. Diben y papur hwn yw rhoi amlinelliad i'r Pwyllgor Safonau o ofynion y Cynulliad mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau, a hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y materion a'r anawsterau penodol sydd wedi codi mewn perthynas â'r Rheolau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau.

2. Mae penodi'r Comisiynydd Statudol cyntaf wedi gosod cynsail ar gyfer mabwysiadu ymagwedd newydd tuag at 'safonau' o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau yn llunio rhan bwysig o'r gyfundrefn safonau ac mae'n hanfodol bod y Rheolau Sefydlog a'r canllawiau perthnasol yn gadarn, yn eglur ac yn addas i'r diben.

### Cefndir y Gofrestr

3. Mae Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Gall methu â chofrestru buddiannau Aelodau yn gywir fod yn dramgwydd troseddol posibl o dan Adran 36(7) o'r Ddeddf.

4. Mae gofynion penodol cofrestru wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 2, ac fe'u hatodir gan ganllawiau manwl a fabwysiedir drwy benderfyniad y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Er hwylustod, mae'r papur hwn yn cyfeirio at ofynion y Rheol Sefydlog a'r canllawiau gyda'i gilydd fel 'Y Rheolau ar Gofrestru a Datgan'.

5. Yn unol â Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor Safonau wneud yr hyn a ganlyn: 'goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau…a ffurf a chynnwys y Gofrestr…a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a'r Cofnodion a sicrhau eu bod yn hygyrch'. O dan y cylch gwaith hwn, mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dros baratoi a chynnal y Rheolau ar Gofrestru a Datgan.

6. Mae dyletswydd ar y sawl sy'n cofrestru buddiannau'r Aelodau i roi cyngor i'r Aelodau ar y dehongliad o'r Rheolau. Y Cofrestrydd ar hyn o bryd yw Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth, a rhoddir cyngor o ddydd i ddydd ar ei rhan gan y Swyddfa Gyflwyno, sydd hefyd yn cynnal a chyhoeddi'r Gofrestr ffurfiol.

### Adolygiad cyffredinol o'r Rheolau

7. Yn 2001, comisiynodd y Pwyllgor Safonau adolygiad cyffredinol o gyfundrefn safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd gan yr Athro Diane Woodhouse o Brifysgol Brookes, Rhydychen[1]. Gosododd yr adolygiad hwn a'i argymhellion sail ar gyfer y Rheolau ar Gofrestru a Datgan presennol, yn ogystal â'r Cod Ymddygiad a'r Weithdrefn Gwyno.

8. Fodd bynnag, ni adolygwyd y Rheolau ar Gofrestru a Datgan ers sawl blwyddyn, ac mae angen diweddaru'r Rheolau o leiaf i adlewyrchu'r derminoleg gywir a phresennol. Mae'n bosibl hefyd y bydd y Pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol cynnal adolygiad ehangach ar y Rheolau ac, er mwyn llywio ystyriaethau'r Pwyllgor, mae'r papur hwn yn amlinellu nifer o feysydd sydd wedi achosi anhawster i Aelodau wrth wneud penderfyniadau ynghylch cofrestru, neu lle mynegwyd pryder ar gynnwys y Rheolau. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y materion penodol hyn wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad o'r dulliau cofrestru a datgan, a sut y dylid gwneud hynny.

## Materion penodol a nodwyd gan y Cofrestrydd

### Pensiynau Aelodau'r Cynulliad

9. Nid oes cyfeiriad yn y Rheolau ar hyn o bryd at a ddylid cofrestru pensiynau preifat neu alwedigaethol Aelodau'r Cynulliad ac felly maent yn agored i gael eu dehongli i ryw raddau. Gellid ystyried egluro'r Rheolau yn y cyd-destun hwn.

### Categori (vi) Nawdd Ariannol

10. Mae'r categori hwn a'r Rheolau cysylltiedig yn anodd eu deall a gall fod yn anodd cydymffurfio â hwy yn ymarferol. Mae'n hanfodol bod yr Aelodau'n gallu penderfynu a yw unrhyw nawdd ariannol a gânt yn dod o fewn y Rheolau ar gofrestru. Felly, gellir cael budd o gael mwy o eglurder o ran y Rheolau yn y maes hwn.

### Categori (ix) Cyfranddaliadau

[1] Mae Adroddiad Adolygiad Woodhouse wedi'i gyhoeddi gan y Pwllgor Safonau ar wefan y Cynulliad:
http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-previous-committees/bus-committees-first-std-home/bus-committees-first-std-reports.htm

11. Mae’r categori hwn fel arfer yn gweithio’n well ac mae’r Rheolau’n eglur, ond am y tro cyntaf yn y Pedwerydd Cynulliad, gofynnwyd i ni ystyried a ddylid cofrestru cyfranddaliadau a gedwir mewn ‘ymddiriedolaethau dall’ - ni chaiff hyn ei gynnwys yn y Rheolau ar hyn o bryd. Mae ymddiriedolaethau dall wedi peri pryder ac wedi bod yn destun beirniadaeth yn Senedd y DU - mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y mater hwn ymhellach felly.

**Cofrestru Plant Dibynnol**

12. Mynegwyd pryder bod gofyn i’r Aelodau gofrestru buddiannau eu ‘plant dibynnol’ – yn enwedig mewn perthynas â’u cyflogaeth. Gall blant 13 oed neu hŷn gael swydd rhan amser, a gofynnwyd cwestiynau ynghylch a yw’n briodol, neu’n angenrheidiol, cofrestru cyflogaeth plant yr oed hwnnw.

**Arian cyhoeddus sydd yn nwylo’r Aelodau**

13. Mae’r Cofrestrydd wedi cael nifer o ymholiadau ynghylch yr ‘arian cyhoeddus’ sydd yn nwylo Aelodau’r Cynulliad a’u partneriaid, ac a ddylid cofrestru hyn yn benodol neu ar gofrestr arall. Un maes yr oedd diddordeb mawr ynddo oedd y cymorthdaliadau a gaiff ffermwyr.

14. Nid oes cyfeiriad yn y Rheolau ar hyn o bryd at y mater hwn. Fodd bynnag, o ran y Rheolau presennol, mae’n eglur nad oes gofyn i’r Aelodau gofrestru’r ffaith eu bod yn cael arian cyhoeddus yn benodol nac ar wahân. Mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y mater hwn yn fwy manwl a chryfhau’r rheolau, os yw hynny’n angenrheidiol.

**Datgan Buddiant**

15. Mae’r Rheolau presennol ar ddatgan buddiant yn ffurfiol yng ngweithdrefnau’r Cynulliad yn cyfyngu ar yr achlysuron lle mae angen datgan buddiant yn ffurfiol. Mae’n ofynnol i’r Aelodau ddatgan buddiant os ‘gallai penderfyniad penodol gan y Cynulliad neu Bwyllgor olygu mwy o fantais ariannol i'r Aelod nag i'r rhai y mae’r penderfyniad yn effeithio’n gyffredinol arnynt’.

16. O gofio sut mae gweithdrefnau’r Cynulliad yn cael eu gweithredu ers gwahanu’r Llywodraeth a’r Cynulliad yn ffurfiol, mae’r achlysuron lle mae angen datganiad ffurfiol yn brin iawn. Mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a yw’r Rheolau ar wneud datganiad yn dal yn addas i’r diben yn y Pedwerydd Cynulliad.

## Crynodeb / Argymhellion

17. Mae’r meysydd a amlygwyd yn y papur hwn yn rhoi trosolwg i’r Pwyllgor o rai o’r anawsterau a brofwyd gan Aelodau a Chofrestrydd Buddiannau’r Aelodau wrth ystyried y Rheolau ar Gofrestru a Datgan presennol.

18. Er bod problemau wedi codi, mae’n bwysig pwysleisio i’r Pwyllgor, ac i’r cyhoedd, na fu torri ar y Rheolau ar Gofrestru a Datgan. Mae’r Aelodau yn parhau i gadw’r safonau uchaf yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae’n hanfodol bod y Rheolau’n cael eu hadolygu’n barhaus i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas i’r diben, a’u bod yn ddigon eglur i’r Aelodau pan fyddant yn ystyried a ddylent gofrestru a datgan eu buddiannau ariannol.

19. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y materion a godwyd yn y papur hwn ac i gytuno ar y ffordd ymlaen.

**Gareth Rogers**
**Pennaeth y Swyddfa Gyflwyno**